

Dydd Mawrth 28^{ain} Chwefror 2017

Annwyl Aelodau a Thîm Cymorth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn o gymorth i chi wrth i chi bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Blaenau Gwent a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynglwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Roeddwn yn hapus i weld eich bod wedi gwneud cychwyn da gyda'ch ymagwedd tuag at **ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau** drwy'r ymgynghorad *Y Blaenau Gwent a Garem* ac mae'n wych bod ymgysylltiad parhaus yn fath flaenoriaeth glir i aelodau'r BGC. Rydych wedi cyflwyno'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd gennych yn dda fel rhan greiddiol o'ch asesiad sy'n rhoi sylfaen gref i chi ddangos eich bod yn gwrando ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud wrthych. Rydych mewn sefyllfa dda i adeiladu ar hyn i wneud yn siŵr eich bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyfrannu yn y broses o ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae'r dull o weithio a fabwysiadwyd gennych wrth ddatblygu a deall llesiant yn eich pedair ardal gymunedol yn glodwiw. Mae'r naratif ansoddol a ddatblygwyd ar gyfer yr ardaloedd hyn yn ardderchog, gyda disgrifiadau clir o'r 'asedau' arbennig, natur y cymunedau, beth sydd angen ei wella a defnydd ardderchog o wybodaeth o'r ymgynghoriad *Y Blaenau Gwent a Garem*. Credaf fod gennych y cyfle i archwilio ymhellach yr **integreiddio** rhwng polisi a heriau o dan y pedair thema (llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol), a gwneud mwy o gysylltiad â'r saith nod llesiant. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau perthnasol eich gwahanol sefydliadau wrth facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau.

Cydnabyddaf fod adeiladu ystyriaeth arwyddocaol am dueddiadau'r dyfodol a data'r tymor hwy i mewn i'r asesiad wedi bod yn heriol, ond mae'r ffocws hwn ar **yr hirdymor** yn rhywbeth y byddaf yn edrych amdano wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Yn arbennig byddai o fantais i'r asesiad hwn petai sylw'n cael ei roi i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar draws y pedair thema ar gyfer Blaenau Gwent yn gyffredinol a hefyd y pedair ardal gymunedol.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant. Mae hwn yn faes lle mae angen i chi ffocysu eich sylw ar yr hyn a ddywedir wrthych gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd - yng Ngwent rydych eisoes yn cydweithio'n rhanbarthol a drwy'r G7 a GSWAG ac yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n

debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau.

Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech symud tuag at gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach am y modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad i symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol draft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent ar *Ymgynghoriad ar Aseiad o Lesiant Lleol drafft Blaenau Gwent 2017*. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Ymgynghoriad Drafft Aseiad Llesiant Blaenau Gwent 2017: Cyflwyniad
- Ymgynghoriad Drafft Aseiad Llesiant Blaenau Gwent 2017: Adrannau Economaidd; Cymdeithasol; Diwylliannol; Amgylcheddol
- Ymgynghoriad Drafft Aseiad Llesiant Blaenau Gwent 2017: Byrddau Arddangos *Y Blaenau Gwent a Garem*
- Trafodaeth dros y ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 22ain Chwefror

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017, lle mae hynny'n bosibl o gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho prosesau parhaus datblygiad eich aseiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad, methodoleg a dadansoddiad yr aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCa, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

Tra'n bod yn deall bod yr Asesiadau Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol y byddir yn gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

3. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant.

Rydym ar ddeall y bydd BGCau yn datblygu gwahanol dulliau ar gyfer adlewyrchu llesiant; yn achos Blaenau Gwent drwy ffocysu ar y pedair elfen – llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, pedair ardal gymunedol a 30 o 'fesurau' llesiant. Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data, eu dehongliad a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau.

Tra'n bod yn cydnabod esblygiad y dulliau o weithio o'n gwaith partneriaeth blaenorol, gellid cryfhau'r asesiad gydag eglurhad cliriach am sut a pham y dewiswyd y 30 mesur llesiant. Pam mae'r mesurau arbennig hyn yn bwysig i Flaenau Gwent a pham na ddefnyddiwyd mesurau llesiant eraill? Drwy'r holl asesiad gellid bod wedi cael mwy o eglurhad am *beth* mae'r mesurau'n ei ddweud wrthym am lesiant ym Mlaenau Gwent. Mae *dadansoddiad* cyfyngedig o'r data'n rhywbeth sydd angen mynd i'r afael ag ef drwy'r holl asesiad a chaiff hyn ei amlygu drwyddi draw yn yr adborth hwn.

Tra cyfeirir at y saith nod llesiant yn y cyflwyniad, nid oes cyfeiriad atynt o dan y themâu nac o fewn y dystiolaeth na'r dadansoddiad o fewn pob adran. I'r BGC fedru deall sut y gall facsimeiddio ei gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol, credwn y bydd angen deall a chyfleu'r berthynas rhwng y 'ffrâm' hon yn yr asesiad â'r nodau cenedlaethol.

Mae'r adrannau o dan bob un o'r mesurau - "*Beth mae hyn yn dweud wrthym am Flaenau Gwent?*" yn rhoi cyfle i awduron i ddatblygu a disgrifio'r cysylltiad. Gellid gwneud hyn drwy dabl syml yn egluro cyfraniad pob un o'r 'mesurau' i'r nodau llesiant cenedlaethol fel rhan o'r cyflwyniad i'r asesiad. Mae'n braf clywed o'n sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC y bydd y gwaith blaenoriaethu a gynllunnir gyda phartneriaid yn y misoedd sy'n dod yn ffocysu mwy ar y mater hwn ac edrychwn ymlaen at weld dystiolaeth o'r berthynas hon drwy eich holl gynllunio llesiant.

4. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn. Mae'n beth cadarnhaol bod y cyflwyniad i'r asesiad yn amlygu pwysigrwydd ymagwedd seiliedig ar le.

Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd tuag at ddatblygu dealltwriaeth o lesiant yn y pedair ardal gymunedol² ym Mlaenau Gwent yn glodwiw. Mae'r naratif ansoddol a ddatblygwyd ar gyfer yr ardaloedd hyn yn ardderchog, gyda disgrifiadau clir iawn o beth yw asedau 'arbennig', natur y cymunedau, beth sydd angen ei wella a data ardderchog o'r ymgynghoriad *Y Blaenau Gwent a Garem*. Gellid datblygu hyn drwy ddehongliad pellach a dadansoddiad cryno o'r data - beth mae hyn yn dweud wrthym am lesiant a'r heriau a'r cryfderau ar gyfer pob cymuned? Beth yw'r materion hollbwysig y dylai gwasanaethau cyhoeddus fynd i'r afael â hwynt? Oes yna faterion cylchol sy'n digwydd ar draws y pedair ardal?

Roedd ein sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC yn ddefnyddiol ar gyfer deall anawsterau casglu data ar lefel lleol iawn. Roedd y Data Cynnyrch Ehangach Haen Is a Chanolig a ddarparwyd ar gyfer Blaenau Gwent yn gyffredinol yn darparu sylfaen ardderchog ar gyfer helpu'r BGC i ddeall llesiant mewn gwahanol leoliadau ac o fewn lleoliadau. Mae'r tabl esboniadol ar y data, sydd ar gael yn y Cyflwyniad, yn ddefnyddiol.

Fodd bynnag o fewn y pedair thema a'r 30 'mesur', mae yna amrywiaeth eang yn y modd y mae data sy'n gyffredinol i Went a'r data lleol yn cael eu dehongli. Yn rhai adrannau mae yna ddadansoddiad a dehongliad ardderchog, yn arbennig yn llawer o'r sylwebaethau 'Cymdeithasol' e.e. iechyd. Dylai hwn gael ei ailadrodd yn y naratif sy'n ymwneud â 'mesurau' a themâu eraill. Gellid cryfhau'r adrannau ar *"Beth mae hyn yn dweud wrthym am lesiant ym Mlaenau Gwent"* ac edrychwn ymlaen at weld y cynnydd hwn. Darperir sylwadau penodol ar bob thema ym mhwynt 5 isod.

² Sirhowy (yn cynnwys Tredegar); Ebbw Fawr (yn cynnwys Glyn Ebwy); Ebbw Fach Uchaf (yn cynnwys Brynmawr, Nantyglo a Blaina); Ebbw Fach Isaf (yn cynnwys Abertyleri)

5. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig o bobl. Byddai'n ddefnyddiol i weld cysylltiad cliriach yn y Cyflwyniad am y modd y mae Aseidiadau eraill, yn cynnwys Aseiad Anghenion Poblogaeth ac Aseiad Risg Newid Hinsawdd, wedi ymgysylltu â'r gwaith hwn i helpu i drwytho'ch dealltwriaeth o ble gall cydweithredu gan y BGC ychwanegu'r gwerth mwyaf yn eich ardal.

Blaenoriaeth i'r Swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau gwirioneddol pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwasanaethau.

Mae'n braf gweld sut mae'r ymgynghoriad *Y Blaenau Gwent a Garem* wedi coladu barn y gymuned ar anghenion gwasanaeth cyhoeddus wrth '*wneud Blaenau Gwent yn well lle*'. Mae'r cwestiynau i'r gymuned yn rhoi data da ar yr hyn sy'n peri gofid i bobl yn eu cymunedau a beth yw eu dyheadau ar gyfer y dyfodol, ac mae yna hefyd wybodaeth ddefnyddiol ar fynediad i wasanaethau. Gallech adeiladu ymhellach ar hyn drwy goladu a chrynhofi'r rhain o'r pedair cymuned a'r pedair thema i roi i'r BGC ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus. Amlygodd y sgwrs dros y ffôn gyfoeth y data a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad; dylai'r BGC fuddsoddi adnoddau i ddadansoddi'r data hwn i drwytho amcanion y cynllun ar draws yr ardal yn gyffredinol ac o fewn y pedair cymuned.

Tra caiff prosiectau ac 'ymyriadau' eu rhestru drwy gydol y dogfennau cryno, gallai fod yn fwy clir pa anghenion gwasanaethau ychwanegol penodol sy'n ofynnol, ar ba raddfa a sut mae hyn yn gwahaniaethu ar draws cymunedau. Tra'n bod yn deall y bydd hyn yn cael ei nodi wrth ddadansoddi'r ymateb a datblygu cynllun, byddai naratif y brif ddogfen ar ei ennill o gael peth dehongliad o'r heriau i gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus. A yw'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac ym mha ardaloedd y gall fod angen mwy o weithredu ar y cyd?

6. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o ennill cytbwysedd rhwng data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau

dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel y trafodwyd ym mhwynt 3, mae cyferbyniad clir rhwng yr ymagwedd ansoddol tuag at Adran 3 ar gyfer y pedair ardal gymunedol, a'r ymagwedd feintiol a ddefnyddir o dan bob un o'r pedair thema ar gyfer y 30 'mesur'. Mae ansawdd y naratif ar y pedair ardal gymunedol yn ardderchog, tra mae'r ddarpariaeth ddata a'r dehongliad o dan y mesurau yn amrywiol ac mewn rhai manau yn absennol.

Mae Adran 3 yn rhoi disgrifiadau cryf o asedau cymunedol aneddiadau, tirwedd, asedau adeiledig, cysylltiadau trafniadaeth, canol trefi, ystadau diwydiannol, ysgolion, adfywiad a chymorth cymunedol. Mae'n defnyddio gwybodaeth cyfrifiad a gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ac o'r ymgyngoriad *Y Blaenau Gwent a Garem*. Mwy o ddehongli yw'r cam nesaf i benderfynu a chyfleu'r materion llesiant sydd â'r angen mwyaf i fynd i'r afael â hwynt. Yn gyffredinol, gellid cryfhau'r asesiad drwy dynnu themâu a materion at ei gilydd a thrwy hynny gyflwyno darlun llawer cyfoethocach o lesiant, wedi ei sbarduno gan naratif (gweler cwestiwn enghreifftiol o dan bwynt 3).

Mewn manau gellid gwella'r naratif ar lesiant o dan y pedair thema a'r 30 mesur. Mae angen mwy o ddehongli ar y rhestrau a'r tablau sydd wedi eu trefnu'n dda er mwyn adnabod a chyfleu'r materion mwyaf pwysig a mwyaf arwyddocaol ar gyfer llesiant ym Mlaenau Gwent yn gyffredinol, ar gyfer y pedair ardal gymunedol ac ar gyfer y BGC. Mae'n amlwg bod llawer o ymdrech wedi ei wneud wrth ddatblygu'r adnodd hwn gyda chyfraniadau oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru, GSWAG a'r Uned Ddata, ac rydym yn cydnabod o'r sgwrs dros y ffôn bod cyfyngiadau amser wedi cyfyngu ar ei ddatblygiad. Buasem yn annog y BGC i ddatblygu'r adrannau hyn ac archwilio'r gydberthynas rhwng gwahanol agweddau ar lesiant (gweler sylwadau hwyrach ar Integreiddio ym mhwynt 9).

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth mwy penodol ar bob thema

Economi - mae'r thema hon yn ffocysu ar ystod o fesurau'n ymwneud â gweithgaredd economaidd; cartrefi sydd mewn gwaith; incwm; busnesau newydd; addysg a sgiliau a theithio i'r gwaith. Mae ffeithiau llesiant yn helpu'r darllenydd i ddeall yr wybodaeth hon ond ar y cyfan mae hyn yn hynod o ddisgrifiadol. Mae yna ddata ansoddol da o'r ymgyngoriad *Y Blaenau Gwent a Garem* a'r hyn a wyddom o ymchwil sy'n bodoli eisoes. Ar y cyfan gallai'r adrannau ar "beth mae hyn yn dweud wrthym am lesiant" fod wedi bod yn fwy awdurdodol ar oblygiadau ac arwyddocâd y data hwn i lesiant. Mae rhai yn cychwyn gwneud hyn, megis busnesau, ond ar y cyfan mae dadansoddi'n gyfyngedig. A

ymgyngorwyd a busnesau yn cynnwys Siambrau Masnach, manwerthwyr a grwpiau busnes eraill? Gellid gwneud gwelliannau pellach petai'r adran hon yn peintio darlun ehangach o lesiant economaidd yn y Fwrdeistref drwy: ddisgrifio pwy sy'n gwneud beth a ble; cydberthynas Blaenau Gwent ag economïau lleol eraill, a natur y cyfleoedd yn deillio o brosiect y Ddinas-ranbarth a datblygiad Cylchffordd Cymru. Mae'n amlwg bod cael 50% o boblogaeth Gwent yn cymudo allan o Flaenau Gwent yn golygu goblygiadau i lesiant – beth yw effaith hyn ar yr ardal? Tra'n bod yn deall bod Brexit yn darparu ansicrwydd mawr, mae goblygiadau posibl yn sgil Brexit, er enghraifft i ariannu, yn fater allweddol a fydd yn cael effaith ar Flaenau Gwent ar draws themâu llesiant.

Cymdeithasol - mae'r thema hon yn cwmpasu: disgwyliad oes; ffyrdd iach o fyw, babanod a phlant; heneiddio'n dda; iechyd emosiynol; diogelwch cymunedol; aelwydydd a chartrefi; trafnidiaeth, gofal. Mae data ar ardaloedd LSOA a MSOA ac Acorn Groups yn peintio darlun clir o *benderfynyddion* ac elfennau llesiant cymdeithasol. Fodd bynnag unwaith eto gyda dehongliad neu grynodedd cyfyngedig rydym yn aneglur am oblygiadau llesiant ar draws yr ardal ac o fewn y pedair cymuned. Megis yn yr adran ar yr Economi, gallai'r adran hon elwa ar grynodedd sy'n nodi'r *goblygiadau* eang strategol i lesiant ledled yr ardal. Mae'r adran Tai yn enghraifft o ble mae hyn yn cael ei wneud yn dda a dylid ei ddefnyddio fel meincnod ar gyfer adrannau eraill o fewn y thema hon. Mae angen i adrannau ar Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl a Throsedd gyfleu'n fwy clir raddfa'r her a'r amrywiad gofodol ar draws yr ardal. Ar beth a ble ddylai'r BGC ffocysu ei ymdrechion? Dylid darparu mwy o bwyslais ar gymuned ac *asedau cymdeithasol* fel rhan o sylwebaeth ehangach ar lesiant cymdeithasol yn yr ardal e.e. cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau; a rôl yr economi, nad yw'n ymwneud ag arian, mewn llesiant cymdeithasol a lefelau gofal di-dâl.

Amgylchedd – mae'r thema hon yn cwmpasu tirwedd, hydroleg; aer; dŵr; pridd; ôl-troed carbon ac ôl-troed ecolegol; ynni adnewyddol a gwastraff ac ailgylchu. Ar y cyfan mae'r adran hon yn darparu sylwebaeth llawer mwy cytbwys, wedi ei chefnogi gan ddata, er y byddai mesurau'r ôl-troed carbon a'r ôl-troed ecolegol yn elwa o well cyd-destun a sylwebaeth nag ar hyn o bryd. Yn Adran 3 mae'r naratif ar yr amgylchedd ar gyfer pob ardal gymunedol yn ffocysu ar asedau gyda disgrifiad da o'r hyn sy'n dda am yr amgylchedd: er enghraifft, lefel ymgysylltiad cymunedol mewn gweithgaredd amgylcheddol. Mae yna lai o synnwyr o Adran 3 a'r mesurau cysylltiedig, am natur a graddfa'r heriau: beth yw graddfa dirywiad bioamrywiaeth a ble mae problemau penodol yn yr ardal? Sut mae problemau ansawdd aer, dŵr a phridd yn yr ardal yn effeithio ar lesiant? Ydyn nhw'n broblemau mawr neu a ydyn ni'n ymdopi? A yw tir halogedig yn broblem? Pa mor arwyddocaol yw risg llifogydd a ble? Eto, byddai crynodedd strategol o oblygiadau materion amgylcheddol yn ddefnyddiol.

Diwylliant - mae'r thema hon yn cwmpasu iaith, hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniad, chwaraeon, gweithgareddau hamdden, celf a diwylliant, twristiaeth a thechnolegau'r presennol a'r dyfodol. Mae angen i'r adran 'fesurau' hon gael ei datblygu, gan fod y dehongliad o rai o'r arwyddion yn gyfyngedig neu'n absennol. Mae effaith TG ar ddiwylliant yn llawer mwy na mynediad i fand eang. Sut mae cyfryngau cymdeithasol wedi effeithio ar lesiant yn yr ardal? Ar gyfer yr asesiad yn gyffredinol, mae angen ffocysu llawer mwy ar *asedau* diwylliannol Blaenau Gwent a dylai hyn gael ei ddatblygu a'i adlewyrchu yn Adran 3 ar ardaloedd cymunedol. Beth yw diwylliant yr ardal mewn perthynas â'r celfyddydau, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli? Mae'n amlwg bod yna lawer o weithgaredd cymunedol – a chyfeirir at rai o'r rhain yn y 'proffiliau' ar y pedair ardal a thrwy'r ymgynghoriad *Y Y Blaenau Gwent a Garem*. Byddai crynodeb cyffredinol o'r asedau diwylliannol hyn yn ddefnyddiol i'r BGC i'w helpu i ddeall yn well sut y gallant weithio *gyda'r* gymuned i wella llesiant.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a'r diffygion o fewn yr ardal.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad yn darparu data ar ystod o arwyddion sy'n dangos agweddau allweddol llesiant, ond gellir eu cryfhau drwy fwy o ddehongliad i adnabod natur a graddfa'r heriau allweddol, **cyfaddawdu**, tensiynau a sut y maent yn effeithio ar yr ardal. Mae arnom angen, ar draws pob thema, ddealltwriaeth gliriach o *arwyddocâd* y materion hyn i lesiant.

Deallwn o'r sgrysiâu dros y ffôn gyda thîm y BGC bod gwaith eisoes ar y gweill i gychwyn dehongli'r data sydd wedi ei gasglu i ddeall yr heriau allweddol i Flaenau Gwent. Byddwn yn awyddus i weld sut yr ydych yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn i adnabod yr heriau, a'u cydberthynas, ond hefyd i archwilio sut y gallech ymateb i'r rhain fel BGC.

Mae'n amlwg bod nifer o heriau strategol sy'n darparu cefndir i'ch asesiad ag angen eu hystyried, hwyrach, o fewn sylwebaeth ehangach o dan bob thema (fel yr awgrymwyd ym mhwynt 5 uchod). Mae'r heriau hyn yn gyffredin i bob ardal yng Nghymru, ond ychydig o broffil sydd ganddynt mewn llawer rhan o'r ddogfen fel y maent ar hyn o bryd – efallai oherwydd y diffyg dehongli. Sut mae'r materion canlynol yn effeithio ar lesiant ym Mlaenau Gwent? Anghydraddoldebau mewn iechyd a safon byw; cydnerthedd

seilwaith; addasu i'r lleihad mewn poblogaeth; llygredd aer a pherygl llifogydd; adnoddau cyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol; dim digon o dai; pobl yn byw mewn tldi; diwygio lles; effaith yr hinsawdd; caledi; disbyddiad adnoddau naturiol. Mae hwn yn faes lle gallai data a gwybodaeth bresennol eich helpu i osod gwaith y BGC mewn cyd-destun eang strategol. Tra sonnir am y rhain yn awr ac yn y man o fewn eich 30 'mesur' mae yna angen am ddealltwriaeth ehangach fwy integredig o'u heffaith ac o'r modd y gallent effeithio ar yr ardal yn y dyfodol.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae'n amlwg bod yr ymgynghoriad *Y Blaenau Gwent a Garem* wedi ennyn ymgyfraniad dinasyddion a rhanddeiliaid yn y gwaith o gasglu data meintiol ac ansoddol i drwytho'r asesiad. Deïllir o'r sgwrs dros y ffôn a'r tîm BGC bod llawer iawn o ymdrech wedi ei gwneud i drwytho'r asesiad drwy'r ymgynghoriad hwn.

Rydym o'r farn bod y deunydd a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r gymuned wedi ei ystyried yn ofalus ac yn amlwg wedi bod yn llwyddiannus, gyda 2500 o gyfraniadau. Mae'r modd y defnyddiwyd yr wybodaeth ansoddol hon i gyfleu'r pedwar proffil cymunedol yn glodwiw. Fel yr awgrymwyd uchod, gyda dadansoddiad pellach, mae hwn yn adnodd a ddylai fod yn ddefnyddiol iawn i'r BGC wrth i chi ystyried amcanion wrth i chi symud ymlaen tuag at gynllunio llesiant.

Mae'n gadarnhaol bod cyflwyniad y Cadeirydd yn gosod pwyslais mawr ar barhau i ymgysylltu drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a bod yr asesiadau'n broses barhaus. Deallwn o'r sgwrs dros y ffôn bod yna gynllun dwy-flynedd ar gyfer ymgysylltu.

Mae'n dda clywed hefyd i ba raddau y mae'r asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a bod gwaith wedi parhau ym mis Chwefror i archwilio'r setiau data gan ddefnyddio dull o weithio sy'n ymgorffori'r nodau llesiant a hefyd y pum dull o weithio fel y'u nodwyd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r gweithgaredd hwn a'r canfyddiadau allweddol o'r sesiynau gael eu hamlygu yn yr asesiad cyn y fersiwn terfynol os ydyw hyn yn ymarferol. Byddai hefyd yn

dddefnyddiol petai'r asesiad yn amlygu lefel yr ymgysylltiad gyda'r sector preifat yn y broses gan ei bod yn aneglur ar hyn o bryd ble mae eu persbectifau hwy wedi eu bwydo i mewn.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r Asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilos sefydliadol, i ddehongli beth a olyga hyn i lesiant yn yr ardal.

Mae yna le i roi mwy o ystyriaeth i ddata o bob adran (ac o fewn pob adran) ochr yn ochr â data'r adrannau eraill, ac mae ystyriaeth o'r gydberthynas rhwng data â hyn yn faes i chi roi mwy o ystyriaeth iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud ymlaen at gynllunio llesiant. Mae lle i fwy o integreiddio a mwy o archwiliad o'r berthynas polisi/heriau rhwng pob thema – er enghraifft ansawdd aer ac iechyd, tir halogedig a llifogydd, busnes a photensial Dinas-ranbarth.

Dylai integreiddio ar draws themâu llesiant fod yn fater pwysig i'r BGC i'w ystyried wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Llesiant, nid y lleiaf er mwyn deall y gall y bydd yna angen i adnoddau a'r sector cyhoeddus addasu i fynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws seilos polisi traddodiadol.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Nodir yn dilyn y drafodaeth gyda'r BGC pa mor heriol fu hyn.

Byddai'r Asesiad yn elwa pe rhoddid sylw cyson i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar draws y pedair thema ar gyfer Blaenau Gwent yn gyffredinol a'r pedair ardal gymunedol. Mae hwn yn rhywbeth y buasem yn disgwyl ei weld yn esblygu wrth i'r asesiad a'r Cynllun gael eu datblygu.

Mae'r adran ar *Dueddiadau'r Dyfodol* yn y brif ddogfen, ar hyn o bryd, yn rhoi dehongliad cyfyngedig o effaith ac arwyddocâd tueddiadau poblogaeth, newid hinsawdd, tueddiadau economaidd a thueddiadau iechyd. Beth yw'r effeithiau tebygol ar Flaenau Gwent – pa heriau a gyflwynir ganddynt, ac ar ba

leoliadau penodol, cymunedau a phobl y bydd yr effaith mwyaf? Ydy ymagweddau presennol yn ddigonol? Er enghraifft, tuag at y newid yn yr hinsawdd – pa mor arwyddocaol fydd y newid tebygol yn nhermau dŵr, priddoedd a'i effeithiau ar Flaenau Gwent? Dyma'r math o faterion y gellid eu harchwilio gan y BGC wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml tuag at fynd i'r afael â'r mater hwn - crynodeb o'r heriau tymor byr, canolog a'r hirdymor ar gyfer pob adran, adnabod ble mae goblygiadau arwyddocaol posibl ar gyfer eich ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor lle mae angen dadansoddiad pellach.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dadansoddiad manylach o faterion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Flaenau Gwent yn fanteisiol, i drwytho proses y cynllun llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad eglurach o 'rôl' yr ardal o fewn y rhanbarth a bydd yn bwysig i FGCau ystyried casgliadau asesiadau llesiant ardaloedd lleol cyfagos wrth i gynhyrchu cynllun ddatblygu, ac mae eich ymgyfraniad yn GSWAG yn rhoi sylfaen gwych ar gyfer gwneud hyn. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i ddeall yr effaith rhanbarthol ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, neu Flaenau Gwent gan ei fod yn 'ased' rhanbarthol.

Er bod yna gyfeiriad at y prosiect Dinas-ranbarth nid yw'n glir beth allai goblygiadau'r prosiect mawr, hirdymor hwn fod i *bob* agwedd ar lesiant cymunedol ar draws Blaenau Gwent. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnerthedd ac yn y blaen. Cydnabuwyd hyn yn y sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC. Dylid cynnwys dylanwad posibl y prosiect ar gyfer pob adran o'r asesiad, tu hwnt i'r adran 'llesiant economaidd', gan y bydd yn debygol o gael effeithiau niferus ar draws gwahanol rannau o'r ardal.

Gellid darparu mwy o fewnwelediad o arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant (yn arbennig o gadw mewn golwg i ba raddau mae cymudo yn digwydd ym Mlaenau Gwent), materion hollbwysig i seilwaith trafniadaeth yn rhanbarthol a natur y gydberthynas â'r G7 a phartneriaid rhanbarthol eraill. Gellid cynnwys hyn i gyd mewn sylwebaeth a dadansoddiad o'r cyd-destun strategol ehangach fel y crybwyllwyd mewn sylwadau cynharach.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae hwn yn faes lle byddai'r asesiad ar ei ennill o gael mwy o ystyriaeth. Byddai adrannau 1, 2 a'r mesurau ar eu hennill o gael adran sy'n darparu synthesis o'r bylchau data o edrych ar y gwaith o wahanol agweddau i ddeall beth allai fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor - h.y. beth sydd ar goll sydd o bwys yn awr i drwytho datblygu Cynllun, beth fyddai'n dda i'w adeiladu dros y tymor canolig a beth yw materion data yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a dulliau rheoli i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru o anghenion y BGC.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimieiddio* eu cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod yna weithgareddau sy'n dangos yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac sydd ymhlyg yn yr ymagwedd a gymerir ac mae'r gweithgareddau hyn yn dangos dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i bwriadau.

Hirdymor – Drwy'r Adran Tueddiadau'r Dyfodol

Ymglyfraniad – drwy waith ymgynghori yr ymgymerwyd ag ef a gwaith sydd ar y gweill

Cydweithio – drwy weithio gyda phartneriaid statudol, GAVO a GSWAG

Tra caiff *Atal* ei grybwyll yng nghyd-destun ymyrraeth blynnyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r Asesiad ar ei ennill o ddisgrifiad o sut y mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.

O'r dogfennau a roddwyd yn wreiddiol i ni, ychydig o dystiolaeth a welir bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei defnyddio fel modd o weithio yn yr asesiad hwn (gweler sylwadau ar *Integreiddio* o dan bwynt 9). Mae felly'n gadarnhaol i glywed am yr ymrwymiad i ddefnyddio'r pum dull o weithio ar draws gwaith grŵp strategol y BGC a gweld adran ddrafft ar y pum dull o weithio sydd wedi eu paratoi ar gyfer yr asesiad. Mae hyn yn galonogol, gan ei bod yn bwysig i FGCau ddefnyddio'r egwyddorion hyn yn eu gwaith yn ogystal â dangos sut mae'r egwyddorion hyn wedi newid ymagwedd y BGC tuag at gynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun. Mae'n beth cadarnhaol bod rhagair y Cadeirydd yn glir iawn ar bwrpas yr asesiad a'r ymgynghoriad *YBlaenau Gwent a Garem*, gan annog ymgysylltiad pellach gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Byddai'r asesiad ar ei ennill o fod yn fwy clir am: y camau nesaf; sut y gall unigolion a sefydliadau barhau i ymglyfrannu; yr amserlen, a beth mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud. Mae'n bwysig bod yr eglurhad hwn yn cyfleu sut y caiff y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC.

Credwn y byddai dehongli pellach, dadansoddiad a chrynodeb o'r deunydd yn helpu i bennu amcanion, gydag angen arbennig i ddistyllu'r heriau strategol hirdymor o'r asesiad, fel y crybwyllwyd uchod. Tra'n bod yn deall bod yr amserlenni ar gyfer cynhyrchu cynllun yn dynn, credwn y dylid dehongli'r data hwn cyn i amcanion llesiant gael eu pennu. Mae'n amlwg bod eich defnydd o fatrics blaenoriaethau a'r *model rhesymeg* yn mynd i fod yn rhan o'r rhan hon o'r broses a byddai dadansoddiad pellach o'r data'n fanteisiol i'r ymarferion hyn, y naill fel y llall.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r Asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod lefel yr ymgysylltiad drwy'r arolwg llesiant yn arbennig o gadarnhaol. Mae'n amlwg bod hon wedi bod yn dasg enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. Mae'r ymgynghoriad *Y Blaenau Gwent a Garem* yn amlwg wedi bod yn llwyddiant mawr, ac mae gan y BGC her o'u blaenau i wneud synnwyr o, a dehongli'r data sydd wedi ei gasglu.

Credwn bod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol i wella'r asesiad, sy'n berthnasol i Flaenau Gwent yn gyffredinol ac i'r ardaloedd cymunedol unigol:

Nodau llesiant – dealltwriaeth eglurach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol

Cyd-destun strategol – disgrifiad ehangach o heriau llesiant ar gyfer Blaenau Gwent dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y pedair thema a'r mesurau cysylltiedig

Integreiddio ar draws themâu – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd a'r pedair thema a goblygiadau hyn i lesiant

Dadansoddiad o'r data a'u harwyddocâd – mwy o eglurhad o'r modd y mae'r materion a nodwyd drwy data'n effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau, a'u harwyddocâd ar draws Blaenau Gwent

Cyd-destun rhanbarthol – dealltwriaeth ehangach o le Blaenau Gwent yn y rhanbarth a'r gydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cymdogol, yn cynnwys effaith posibl y prosiect Dinas-ranbarth a Chylchffordd Cymru

Asedau Cymdeithasol a Diwylliannol – dealltwriaeth ehangach o asedau cymdeithasol a diwylliannol a'u rôl mewn llesiant ar draws Blaenau Gwent

Tueddiadau'r Dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant ym Mlaenau Gwent

Symud ymlaen – darparu eglurder ar sut y bydd yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i drwytho pennu amcanion

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Blaenau Gwent a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.